
## ACT 10: Sgomer a Sgogwm





Safle'r Coed a'r Coetir a Chanllaw ar Ddyluniad
Awdurdod Parc Cenedlaethol Afordir Penfro

**ACT 10 Lleoliad ac Arwynebedd Coetir Presennol**

ACT 10: Sgomer a Sgogwm
ACT Cyfagos

*Diffiniad y RhGG o goetir ydy ardal ag arwynebedd o leiaf 0.5 hectar




Yn cynnwys data Arolwg Ordnans © Hawlfraint a hawliau cronfa ddata'r Goron * © Getmapping plc.
Yn cynnwys gwybodaeth Cyfoeth Naturiol Cymru © Cyfoeth Naturiol Cymru a hawl cronfa ddata.
Yn cynnwys data deillianol Arolwg Ordnans. Rhif trwydded Arolwg Ordnans 100019741.


CB: EB:philipb LUC Location 31/01/2023
Source: OS, FC, NRW

Safle'r Coed a'r Coetir a Chanllaw ar Ddyluniad
Awdurdod Parc Cenedlaethol Afordir Penfro

## ACT 10 Dynodiadau Cadwraeth Natur




- ACT 10: Sgomer a Sgogwm
- ACT Cyfagos
- Gwarchodfa Natur Genedlaethol
- Ardal Gwarchodaeth Arbennig
- Ardal Cadwraeth Arbennig
- Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig
- Parthau Cadwraeth Morol




Yn cynnwys data Arolwg Ordnans © Hawlfraint a hawliau cronfa ddata'r Goron * © Getmapping plc.
Yn cynnwys gwybodaeth Cyfoeth Naturiol Cymru © Cyfoeth Naturiol Cymru a hawl cronfa ddata.
Yn cynnwys data deillianol Arolwg Ordnans. Rhif trwydded Arolwg Ordnans 100019741.


CB: EB:philipb LUC Nature Designations 01/02/2023
Source: OS, NRW

Safle'r Coed a'r Coetir a Chanllaw ar Ddyluniad
Awdurdod Parc Cenedlaethol Afordir Penfro

## ACT 10 Dynodiadau Amgylchedd Hanesyddol

- ACT 10: Sgomer a Sgogwm
- ACT Cyfagos
- Tirwedd Hanesyddol Eithriadol
- Heneb Gofrestredig



Yn cynnwys data Arolwg Ordnans © Hawlfraint a hawliau cronfa ddata'r Goron 2022
Yn cynnwys data Cadw ©

CB: EB:philipb LUC Heritage 31/01/2023
Source: OS, Cadw

### Disgrifiad o'r arwynebedd coetir presennol

Nodweddir yr Ardal Cymeriad Tirwedd (ACT) hon gan ddwy ynys forol Sgomer a Sgogwm sydd wedi'u lleoli i'r gogledd ac i'r de o'r Swnd Lydan. Cynefinoedd rhostir a glaswelltir arfordirol lled-naturiol sydd amlycaf yn gorchuddio'r tir gyda lleiniau o brysgwydd a rhedyn. Nid oes unrhyw goetiroedd na choed aeddfed ar yr ynysoedd.

| Dynodiadau a chofnodion treftadaeth naturiol a diwylliannol | |
|---|---|
| *Mae'r Canllaw hwn yn canolbwyntio ar sensitifrwydd a chyfleoedd ar gyfer creu coetiroedd mewn perthynas â chymeriad tirwedd. Dim ond rôl gynghorol all fod iddo wrth bwyso a mesur manteision posib creu coetiroedd o'u cymharu ag effeithiau posib ar gynefinoedd nad ydynt yn goetiroedd ac asedau treftadaeth ddiwylliannol, y dylid eu hystyried yn fwy manwl ar lefel safle. Gweler y prif adroddiad am ragor o fanylion.* | |
| ACA, AGA, SoDdGA<br>GNG, GNL (yn cynnwys gwarchodfeydd Ymddiriedolaethau Natur /RSPB) | Mae AGA Sgomer, Sgogwm a Moroedd Penfro yn cwmpasu 451.5 ha (100%) o'r ACT.<br>Mae Dwy ACA yn yr ACT sy'n cwmpasu 159.5 ha (35.3% o'r ACT).<br>Mae dau SoDdGA, sy'n cwmpasu 93.8% o'r ACT.<br>Mae GNG Sgomer a Sgogwm yn cwmpasu 87.1% o'r ACT. |
| Cofrestr Tirweddau Hanesyddol y Parc Cenedlaethol<br>Henebion Cofrestredig, Ardaloedd Cadwraeth, Adeiladau Rhestredig a data CAH | Mae Ynys Sgomer yn Dirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Nghymru ac yn cwmpasu 310.4 ha (68.8% o'r ACT).<br>Mae'r ACT yn cynnwys 74 o gofnodion CAH, sy'n cynnwys rhychwant o nodweddion archaeolegol a hanesyddol, gan gynnwys henebion cofrestredig a rhai heb eu dynodi, adeiladau hanesyddol sydd wedi'u rhestru a rhai sydd heb eu rhestru, a lleoliadau darganfyddiadau. Mae'r nodweddion hyn yn dyddio o gyfnod cynhanes i gyfnodau diweddar. |

| **Sensitifrwydd y dirwedd i blannu coetir newydd** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Elfennau sensitif allweddol** | ■ Tirffurf llwyfandir gwastad nodedig yr ynysoedd morol, gyda chlogwyni dramatig ar yr arfordir.<br>■ Y dirwedd naturiolaidd â glaswelltir arfor lled-naturiol yn brif orchudd tir, gyda lleiniau o rostir a rhedyn yma ac acw. Mae'r ynysoedd wedi'u dynodi yn rhyngwladol ac yn genedlaethol yn AGA/SoDdGA/GNG oherwydd y cynefinoedd naturiol a'r nythfeydd pwysig o adar y môr y maent yn eu cynnal.<br>■ Patrymau caeau cynhanesyddol sy'n weladwy ar yr ynysoedd.<br>■ Olion archaeolegol o arwyddocâd rhyngwladol, gan gynnwys nodweddion amaethu ac aneddiadau cynhanesyddol a chaer Oes Haearn. Mae rhan ogleddol yr ACT o fewn Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Gofrestredig Ynys Sgomer.<br>■ Mae'r ynysoedd yn ffurfio nodweddion tirnodol mewn golygfeydd o'r tir mawr ac o'r môr. Mae Goleudy Trinity House (rhestredig Gradd II) ar Sgogwm yn ychwanegu at yr ymdeimlad o le.<br>■ Cymeriad agored a digysgod heb ddylanwad dynol a golygfeydd panoramig tua'r môr.<br>■ Mae rhinweddau canfyddiadol yr ynysoedd yn newid yn barhaus, dan ddylanwad y môr o'u cwmpas. | | | | |
| **Trosolwg** | Gwelir bod y ddwy ynys yn werthfawr oherwydd eu cynefinoedd lled-naturiol sydd o bwysigrwydd rhyngwladol, gan gynnwys glaswelltir arfor gyda lleiniau bychain o rostir, nodweddion archaeolegol o arwyddocâd rhyngwladol a rhinweddau canfyddiadol y dirwedd agored. Mae'r cyfan o'r ACT hon yn hynod sensitif i greu coetiroedd ar unrhyw raddfa gan y byddai plannu yn newid cymeriad yr ynysoedd yn sylweddol ac yn gallu cael effaith niweidiol ar rinweddau arbennig yr ynysoedd.<br>Mae sensitifrwydd y dirwedd i goetiroedd cymysg o bob graddfa yn uchel ar gyfer yr ACT hon. | | | | |
| **Sgoriau Sensitifrwydd Tirwedd** | | | | | |
| **Coetiroedd llydanddail ar raddfa fach (≤5ha)** | | | | | **Uchel** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Coetiroedd llydanddail ar raddfa fach-ganolig (>5-15ha)** | | | | | Uchel |
| **Coetiroedd llydanddail ar raddfa ganolig (>15-30ha)** | | | | | Uchel |
| **Coetiroedd llydanddail ar raddfa fawr (>30ha)** | | | | | Uchel |

| Cyfleoedd ar gyfer gosod coed a choetiroedd yn y dyfodol o fewn yr ACT |
|---|
| ▪ Mae ynysoedd Sgomer a Sgogwm yn hynod sensitif i blannu coetiroedd ar unrhyw raddfa, felly nid oes unrhyw gyfleoedd wedi'u cynnwys. |

| Canllawiau strategol ar gyfer plannu coetiroedd / coed o'r newydd |
|---|
| ▪ Asesir bod gan yr ACT sensitifrwydd tirwedd ar lefel uchel i greu unrhyw goetiroedd ac felly nid oes unrhyw ganllawiau wedi'u cynnwys. |